**Grŵp Trawsbleidiol ar Hemoffilia a Gwaed Halogedig**
**4 Tachwedd 2015, 17.00**
**Y Senedd**

<u>Yn bresennol:</u>
Julie Morgan AC (Cadeirydd)
Lynne Kelly Hemoffilia Cymru
David Thomas Hemoffilia Cymru
Nancy Cavill cynorthwy-ydd Julie Morgan
Ymddiheuriadau: Mick Antoniw AC, William Graham AC, Eluned Parrott AC

Trafododd y grŵp benodiad Dr Brijesh Srivastasva, Hepatolegydd Ymgynghorol yn Ysbyty Athrofaol Cymru a'r cyllid gwerth £14 miliwn ar gyfer cyffuriau Hepatitis C newydd a gyhoeddwyd gan Mark Drakeford ym mis Hydref. Cafodd y Grŵp Trawsbleidiol ei longyfarch ar ei waith yn helpu i sicrhau'r ddau ddatblygiad. Nodwyd bod cymorth ariannol gan Ymddiriedolaeth Macfarlane, Cronfa Skipton a Chronfa Caxton i hemoffiligion sydd wedi'u heintio â gwaed halogedig, ynghyd â diffyg yswiriant bywyd a diogelwch morgais yn parhau i achosi trallod. Bu cynnydd yn nifer y grantiau caledi a ddarperir gan Hemoffilia Cymru i gleifion sydd mewn angen brys. Yn San Steffan, caiff manylion yr ymgynghoriad eu cyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd. Byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn cael eglurhad ynghylch y cyffuriau Hepatitis C newydd ar gyfer cleifion hemoffilia sy'n byw y tu allan i fwrdd iechyd lleol eu canolfan hemoffilia.